

Foel Dyrch

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 7.6 milltir (12.2 km) 3 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Dim

CYMERIAD: Cymedrol i serth, rhostir, da byw, gall fod yn wlyb mewn mannau, 2.8 milltir (4.5 km) o isffyrdd/traciau


CHWILIWCH AM: Golygfeydd panoramig • bwn cathod • ehedyddion • hen chwarelau

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

ALLWEDD

- • • • • Llwybr Cylch
- • • • • Llwybrau Cyhoeddus
- P** Parcio - cyfyngedig



Foel Dyrch

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr 30 munud

Pellter: 7.6 milltir (12.2 km)

Cludiant cyhoeddus: Dim.

Cyfeirnod map: SN154312

Saif Mynachlog-ddu ar ochr Ddeheuol y Preselau ac mae'r llwybr hwn yn eich tywys chi i'r rhostir uwchlaw'r pentref.

Fe ddywedodd yr awdur a'r darlledwr Wynford Vaughan-Thomas am y Preselau: "Ym mhob man rydych chi'n teimlo presenoldeb yr adeiladwyr bedd megalithig, y rhyfelwyr Oes Haearn a bentyrrau'r cerrig ar gyfer y bryngaerau mawreddog a'r hen saint Celtaidd caredig ac anghofus."

Ac mae yna ddigon o dystiolaeth o gymunedau cynharach i chwilio amdani wth i chi gerdded, gan gynnwys carneddau claddu a cherrig sefyll o Oes Newydd y Cerrig a'r Oes Efydd.

I'r gogledd o Fynachlog-ddu mae'r llwybr yn ymylu â llethrau Carn Meini, a fu unwaith yn ffynhonnell bwysig ar gyfer dolerit brith, craig gadarn igneaidd yn frith o grisialau. Roedd yna alw mawr am y dolerit, neu'r garreg las, yn ystod Oes Newydd y Cerrig fel deunydd crai i wneud offerynnau.

Dyma'r garreg a ddefnyddiwyd tua 4,500 o flynyddoedd yn ôl i adeiladu'r cylch mewnol yng Nghôr y Cewri (Stonehenge). Mae yna ddadlau mawr o hyd ynghylch sut yr aethpwyd â'r cerrig hynny o Garn Meini i Wiltshire.

Mae'r rhostir agored yn gyfoeth o fywyd gwyllt ac mae yna siawns dda y gwelwch chi fwncathod a chigfrain ac efallai barcut coch hefyd. Os ydych chi'n ffodus iawn efallai y gwelwch chi gudyll bach, hebog gwydn, chwim ei adenydd ac aderyn ysglyfaethus lleiaf Prydain.

I'r gorllewin o Fynachlog-ddu mae yna garreg goffa i Waldo Williams, bardd uchel ei barch o Sir Benfro y mae ei waith wedi'i ysbrydoli gan yr ardal leol. Nodwyd canmlwyddiant genedigaeth Waldo yn 2004 gyda digwyddiadau arbennig yn y gymuned.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

